



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 20FED MEHEFIN, 2019

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN YSTAFELL GWYRFAI
AM 10.00 Y.B.**

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 13/6/19)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
E. Selwyn Griffiths
Elin Walker Jones
Huw Gruffydd Wyn Jones
Mair Rowlands

Aled Ll. Evans
Judith Mary Humphreys
Gareth Jones
Olaf Cai Larsen
Paul John Rowlinson

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Freya Hannah Bentham
Beth Lawton
Elfed Powell Roberts

Elwyn Jones
Dewi Wyn Roberts

Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

Gareth Williams

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Dewi Owen

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

AELODAU CYFETHOLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

Anest Gray Frazer

Eglwys yng Nghymru

[sedd wag]

Yr Eglwys Gatholig

Dylan Davies

Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr
Meirionnydd

Karen Vaughan Jones

Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr
Dwyfor

[sedd wag]

Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr
Arfon

Heb Bleidlais:

Dilwyn Elis Hughes

UCAC

David Healey

ATL

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2019/20.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2019/20.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

6 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

7. STRATEGAETH IAITH UWCHRADD

10 - 12

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*10.30yb – 11.30yb

8. SIARTER IAITH GYMRAEG YSGOLION CYNRADD GWYNEDD

13 - 15

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*11.30yb – 12.30yp

*amcangyfrif o'r amseroedd

Cynhelir sesiwn anffurfiol ar gyfer yr aelodau ar derfyn y cyfarfod.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 21 MAWRTH 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Freya Bentham, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Dewi Roberts, Elfed Roberts, Mair Rowlands, Cemlyn Williams a Gareth Williams.

Aelod Cyfetholedig: Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

Aelod Ex-officio: Y Cynghorydd Edgar Owen.

Swyddogion yn bresennol: Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democraidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Ffion Edwards Ellis (Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)
Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd)

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)
Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd)
Ffion Edwards Ellis (Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad)

Yn bresennol ar gyfer eitem 8 isod:

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor)
Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Yn bresennol ar gyfer eitem 9 isod:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Hugh Edwin Jones (Rheolwr Digwyddiadau)

Croesawyd y Cynghorydd Dewi Roberts i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Cemlyn Williams ar ei rôl newydd fel Aelod Cabinet Addysg o fis Ebrill ymlaen. Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Addysg presennol, y Cynghorydd Gareth Thomas, am ei gydweithrediad parod dros y blynyddoedd diwethaf a dymunwyd yn dda iddo yn ei rôl newydd fel Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned. Diolchwyd hefyd i'r Aelod Cabinet Datblygu'r

Economi presennol, y Cynghorydd Ioan Thomas, a dymunwyd yn dda iddo yntau yn ei rôl newydd fel Aelod Cabinet Cyllid.

Diolchodd yr Aelodau Cabinet presennol i'r staff am eu holl gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Dewi Owen.

Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru) a David Healey (ATL)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2019 fel rhai cywir.

5. YMGYNGHORIAD AR Y COD DRAFFT ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R RHEOLIADAU ARFAETHDIG

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn crynhoi prif egwyddorion y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol, y gwaith cynllunio ar gyfer y newidiadau a'r risgiau i'r awdurdod.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod y pwyllgor yn gwerthfawrogi'r adroddiad cynhwysfawr a baratowyd gan yr Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad mewn ymateb i'r ymgynghoriad.
- Er gwaethaf honiad y Llywodraeth y byddai'r newidiadau'n gost-niwtral, bod y pwyllgor yn llwyr dderbyn yr eglurhad a roddwyd gan yr Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad, ac a ategwyd gan y Pennaeth Addysg, nad yw'n gost-niwtral, yn enwedig o ystyried bod yr oedran yn cael ei ymestyn o 0-25, ac yn cynnwys plant cyn ysgol a phobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol.
- Bod yna bryder ynglŷn â chapasiti, nid yn unig yn nhermau'r costau ychwanegol, ond hefyd o safbwynt nifer y staff â'r arbenigedd ac adnoddau digonol, ac ati.
- Bod pryder hefyd wedi'i fynegi, yn enwedig o ochr yr undebau, ond gan yr Adran hefyd, ynglŷn â'r pwysau gwaith ar gydlynwyr, o ystyried mai'r pennaeth yw'r cydlynnydd sy'n gwneud y gwaith ychwanegol mewn nifer o ysgolion bychain.
- Bod yr aelodau'n cyd-weld â'r cyfeiriad o safbwynt ymyrraeth gynnar gan fod hynny'n gwella'r sefyllfa i'r plentyn ac yn sicrhau ymdrin â phroblemau'n gynnar.
- Bod pryder wedi'i fynegi ynglŷn â'r Tribiwnlysoedd Addysg a rhaid sicrhau a pharhau i adolygu'r gefnogaeth i'r cydlynwyr, ac roedd hwyluso materion yn electroneg am fod o gymorth yn hyn o beth.
- Bod rhaid sicrhau bod cydweithio'n digwydd, yn enwedig gyda'r Bwrdd Iechyd, gan sicrhau eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau. Mynegwyd pryder nad oedd

swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig wedi ei benodi eto gan fod hon yn swydd strategol ac allweddol.

- Bod angen cyfarch y diffyg seicolegwyr addysg sy'n gallu gwneud y gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd pryder nad oedd digon ohonynt yn cael eu hyfforddi ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd ac awgrymwyd y dylid cysylltu â Phrifysgol Bangor i geisio annog myfyrwyr Seicoleg Cymraeg i ystyried gyrfa fel seicolegwyr addysg.
- Nodwyd y gofynion ychwanegol ar yr awdurdod o safbwynt plant mewn ysgolion annibynnol, ac yn enwedig plant sy'n derbyn addysg gartref, gan ei bod yn anodd eu cyrraedd.
- Bod yr aelodau'n rhannu pryderon y Gwasanaeth ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig ac yn cefnogi'r swyddogion yn eu hymdrech i gyflwyno safbwynt y pwyllgor i'r Cynulliad.
- Bod yna bryderon y byddai'r newidiadau, o bosib, yn mynd yn groes i'r hyn oedd yn cael ei wneud yng Ngwynedd, a mawr hyderid bod modd dod o hyd i ryw lwybr yn y canol sy'n dderbyniol gan bawb.

6. SWYDDFEYDD ADDYSG ARDAL – PROSIECTAU LLEIHOU BAICH

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor ar:-

- Gyfeiriad y Swyddfeydd Addysg Ardal o 2019/19 ymlaen;
- Y diffiniad o bwrpas addysg yng nghyd-destun Ffordd Gwynedd;
- Y prosiectau lleihau baich gwaith penaethiaid.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Croesawyd bod cefnogaeth yn parhau i adnabod ffyrdd o leihau'r baich ar y penaethiaid, a heriwyd oes yna lefydd eraill lle gellir gwella neu leihau'r baich ymhellach.
- Bod her ariannol i sicrhau bod trefniadau'r swyddfeydd ardal yn hunangynhaliol, ond roedd yr Adran yn ffyddiog y gellid sicrhau hynny.
- Ei bod yn ymddangos bod ychydig o aneglurder ynghylch rôl y Byrddau Craffu Addysg ardal ar hyn o bryd, a bod lle i wella ar hynny a gwella dealltwriaeth yr aelodau o hynny.
- Bod angen adroddiad cyfansawdd ar y prif negeseuon, ymatebion yr Awdurdod a pha wahaniaeth roedd y Byrddau Craffu Addysg Ardal yn wneud.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2017-18

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn amgáu Adroddiad Blynyddol Addysg 2017/18.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod yr Adroddiad Blynyddol yn galluogi i'r aelodau gael diweddariad ar nifer o eitemau a chael craffu beth sy'n digwydd ym meysydd ADY, TRAC ac iaith, a safonau i raddau, a mynegwyd gobaith y byddai mwy o wybodaeth ar gael ar hynny'r flwyddyn nesaf.

- Bod craffu cyrhaeddiad yn eithriadol anodd ar hyn o bryd a holwyd oedd lle i alluogi aelodau'r pwyllgor craffu i gael mwy o wybodaeth er mwyn gallu craffu a chraffu fod ymyrraeth briodol yn cael ei roi gan yr Awdurdod trwy GwE?

8. CAIS CYNLLUN TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad yr Arweinydd yn rhoi diweddariad ar y Cynllun Twf i Ogledd Cymru ac yn cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Drafft.

Ymhelaethodd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Gwerthfawrogydd bod y gwaith yn symud yn ei flaen a chroesawyd y cyfle i herio o safbwynt yr Awdurdod i sicrhau atebolrwydd i Wynedd.
- Cafwyd dealltwriaeth o'r sefyllfa gyfredol o ran y corff atebol, a bod y rôl hon gan Wynedd ar hyn o bryd. Gan hynny, roedd modd sicrhau bod egwyddorion Gwynedd e.e. trefniadau caffael a chadw'r budd yn lleol yn derbyn sylw.
- Y gwelwyd bod y rhaglen yn uchelgeisiol. Awgrymwyd efallai bod lle i ymgysylltu'n well gyda phrosiectau sydd wedi methu yn ddiweddar a bod lle hefyd i geisio denu arian y tu hwnt i'r Cynllun TWF, e.e. prosiect morlyn ar draws arfordir y Gogledd.
- Bod angen cysylltu Rhwydwaith Seren gyda'r math o gynlluniau a'r math o ofynion / sgiliau sy'n dod o'r cynlluniau yma er mwyn dod â'r byd busnes a'r byd addysg yn agosach at ei gilydd.
- Bod angen eglurder ynghylch sut i sicrhau arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chronfeydd eraill ar gyfer prosiectau llai / eraill i'r dyfodol.
- Bod rhaid ymateb i Brexit, waeth beth fydd yn digwydd maes o law.
- Y mawr obeithid y byddai modd bwrw ymlaen â'r Cynllun Twf yn fuan, heb unrhyw oedi pellach, oherwydd y rhagwelid bod yna gyfleoedd cyffrous yn mynd i godi.

9. EFFAITH DIGWYDDIADAU YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi yn dangos effaith y digwyddiadau a gefnogir gan y Cyngor ar Wynedd.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod yr adroddiad yn hynod ddiddorol ac yn dangos bod y £50,000 o adnoddau a ddyrannwyd i gefnogi digwyddiadau yn ystod 2019 yn mynd yn bell iawn.
- Ei bod yn galonogol iawn gweld bod digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled y sir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 3.00yp
(gyda thoriad o awr am ginio).

Eitem 7

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	Strategaeth Iaith Uwchradd
Dyddiad y cyfarfod	20 Mehefin 2019
Awdur	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Aelod Cabinet	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams


1. CEFNDIR

- 1.1 Un o brif nodau sefydlu'r Strategaeth Iaith Uwchradd yng Ngwynedd yw sicrhau dilyniant cadarn i'r Siarter Iaith Gymraeg (Cynradd) a gafodd ei sefydlu er mwyn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.
- 1.2 Un o amcanion y Strategaeth Iaith yw rhoi arweiniad clir i'r 14 ysgol uwchradd ar dechnegau a strategaethau posib all gael dylanwad gadarnhaol ar arferion iaith dysgwyr yn gymdeithasol, yn ystod oriau ysgol a thu allan iddynt. Mae'r Strategaeth Uwchradd yn edrych ar elfennau cwricwlaidd o'r iaith hefyd e.e cyfrwng pynciau.
- 1.3 Fel gyda'r Siarter Iaith Cynradd, disgwylir cyfranogiad pob aelod o gymuned yr ysgol – y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach - i'w pherchnogi'n llawn os yw am lwyddo.

2. DATBLYGIADAU

- 2.1 Hunanarfarnu gweithrediad y Strategaeth:
Mae'n ofynnol i bob ysgol lunio cynlluniau gweithredu i ddangos sut maent am gyflawni gofynion y Strategaeth Iaith. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd effeithiol, addaswyd y templed presennol, yn dilyn trafod gyda chynrychiolwyr o Benaethiaid a Chydlynwyr Iaith. Effaith hyn fydd sicrhau bod tystiolaeth glir o gyrhaeddiadau a manau i'w datblygu ymhellach ar gael er mwyn gweithredu arnynt. Trefnwyd ymweliadau gyda phob ysgol gan Gydlynnydd y Strategaeth, er mwyn trafod eu cynlluniau cyn diwedd mis Mehefin.
- 2.2 Gwe Iaith:
Dyma'r holiadur ar-lein a ddefnyddir i fesur defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Cafodd ei beilota yn ystod 2016/17, ond yn nhymor yr hydref 2018, sicrhawyd fod pob disgybl blynyddoedd 7 ac 8 o bob ysgol uwchradd wedi'i gwblhau. Rhaid diolch i'r ysgolion am eu cydweithrediad parod i sicrhau fod hynny wedi digwydd. Rhannwyd y canlyniadau gyda'r ysgolion a chyda swyddogion Hunaniaith ar gyfer eu hysgolion penodedig.
- 2.3 Dyma ddarlun o'r Gwe Iaith (Hydref 2018), sy'n waelodlin i allu cymharu a chyferbynnu unrhyw newidiadau fydd yn digwydd y tro nesaf y bydd yn cael ei lenwi ym mis Gorffennaf. Bydd y data sy'n cael ei gasglu yn bwydo i hunanarfarniadau'r ysgolion, ac yn sail i'w camau gweithredu ar gyfer y dyfodol. Mae sicrhau mewnbwn pob disgybl ym

mlynyddoedd 7 ac 8 yn fodd i sicrhau bod gwerth i'r data a gesglir wrth edrych ar newidiadau ar batrymau a thueddiadau o ysgol i ysgol.



Gwe Iaith, Uwchradd Hydref 2018.

2.4 Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI)

Ymgeisiodd pob un o'r 14 ysgol eleni am y cyllid (£1000) hwn. Pwrpas y grant yw annog disgyblion hŷn yr ysgolion i drefnu gweithgareddau, fydd yn denu disgyblion iau yr ysgol i fod eisiau bod yn rhan ohonynt, gyda'r bwriad o geisio annog eu defnydd o'r Gymraeg. Gwelwyd gweithgareddau amrywiol yn cael eu trefnu – gigs, gweithdy barddoniaeth, gweithdy clocio i enwi ond ychydig. Derbyniwyd adroddiad gan bob ysgol er mwyn gallu rhannu llwyddiannau ac arferion da. Gellid gweld yn glir y brwdfrydedd yn yr ysgolion, a gobeithir y bydd hynny'n cael ei gynnal er mwyn tanio diddordeb y disgyblion a hybu'u sgiliau cydweithio.

2.5 Deunyddiau yn hyrwyddo addysg ddwyieithog:

Yn dilyn cais gan nifer o Gydlynwyr Iaith yn yr ysgolion, daeth is-grŵp at ei gilydd i gyd-gynllunio adnoddau allai gael eu defnyddio'n yr ysgolion mewn nosweithiau rhieni, er enghraifft, i hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog, ac yn bwysicach efallai, y dilyniant ieithyddol wrth symud o un cyfnod allweddol i'r llall. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob ysgol i fod yn rhan o fideo a saethwyd yng Ngwersyll yr Urdd yn Nglan-llyn. Bu'n ddiwrnod gwerth chweil, a gobeithir lansio'r adnoddau gweledol – llyfrynau a phosteri, ynghyd â'r fideo yn fuan.

Trwy roi pwyslais ar y Gymraeg, anelir i wireddu'r amcan y bydd plant a phobl ifanc Gwynedd yn hyderus ddwyieithog, ac yn falch o'r gwerth ychwanegol a roddir iddynt o allu cyfathrebu mewn dwy iaith yn gymdeithasol, ac yn broffesiynol wedi ymadael â'r gyfundrefn addysg gan allu trosglwyddo hynny'n falch i'r genhedlaeth nesaf yng Ngwynedd.

2.6 Cydweithio Rhanbarthol:

Mynychwyd cyfarfodydd o'r timau prosiect canlynol: Tîm Prosiect Cynllunio Addysg Gymraeg a Dysgu Cyfrwng Cymraeg/Dwyieithog, Tîm Prosiect Defnydd Anffurfiol/Cymdeithasol o'r Gymraeg a Tîm Prosiect Hyfforddi'r Gweithlu. Yn ogystal mynychwyd Hyfforddiant Seicoleg Iaith, o dan arweiniad Gareth Ioan yn ystod mis Mawrth yn Ysgol Bro Idris, Dolgellau.

3. **BLAENORIAETHAU 2019/20**

- Gweithrediad y Strategaeth Iaith: Rhae adru arferion da ymhellach, trwy adrodd ar gynnydd a datblygiadau traws sirol erbyn diwedd tymor yr haf, a thrwy law Cydlynwyr Iaith yr ysgolion.
- Gwe iaith: Addasu ymhellach y cwestiynau a holir, er mwyn casglu data am arferion iaith dysgwyr wrth iddynt fynd yn hŷn. Bydd hyn yn cynnig tystiolaeth i gynllunio'n effeithiol i ddylanwadu ar ddisgyblion hŷn yr ysgolion, ac yn rhoi cyfle i ystyried a yw'r strategaethau a ddefnyddir gyda disgyblion iau yr ysgolion yr un mor berthnasol i'r gynulleidfa darged hon.
- Cyfrwng Iaith Pynciau: Cyflwyno holiadur i Benaethiaid, sydd yn canolbwyntio ar gyfrwng iaith addysgu pynciau yn yr ysgol. Bwriedir rhoi sylw i gyfrwng iaith pynciau yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5, gan sefydlu gwaelodlin o'r sefyllfa bresennol fel y cam cyntaf. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i adnabod blaenoriaethau a llunio targedau ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, fydd maes o law yn ddogfen cynllunio ieithyddol dros gyfnod o 10 mlynedd.

Eitem 8

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd
Dyddiad y cyfarfod	20 Mehefin 2019
Awdur	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Aelod Cabinet	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

1. CEFNDIR

- 1.1. Yn 2010 sefydlwyd Gweithgor Cynyddu Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg er mwyn ymateb i ganfyddiadau gwaith ymchwil a gomisiynwyd i ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn ysgolion cynradd Gwynedd.
- 1.2. Arweiniwyd y Gweithgor gan yr Adran Addysg a Hunaniaith, gydag aelodaeth o blith aelodau etholedig, ynghyd â'r ysgolion cynradd. O drafodaethau'r Gweithgor hwn y datblygodd y syniad o sefydlu Siarter Iaith, sydd bellach yn weithredol yn holl ysgolion cynradd Gwynedd, ac wedi ei ledaenu'n ranbarthol ac yn genedlaethol gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- 1.3. *Nôd syml y Siarter Iaith yw arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mewn gair, ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau.*
- 1.4. Mae'r Siarter yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol – y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni.
- 1.5. Lanswyd y Siarter Iaith yn ei ffurf wreiddiol mewn cynhadledd yn Nant Gwrtheyrn ym Mehefin 2011. Yn dilyn hynny, peilotwyd y Siarter mewn nifer cyfyngedig o ysgolion, ac yna, yn haf 2013, penodwyd Cydlynnydd Siarter Iaith, a fu'n gyfrifol am ledaenu'r Siarter i weddill ysgolion cynradd Gwynedd.

2. GWEITHREDU'R SIARTER IAITH

- 2.1. Ers lansio'r Siarter Iaith, datblygwyd y ddogfen a'r arweiniad i ysgolion bedair gwaith a hynny heb golli golwg ar y weledigaeth sylfaenol o gael plant Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- 2.2. Mae'r Adran Addysg yn gyfrifol am rwydwaith o 13 o Gyd-Gysylltwyr Iaith Dalgylchol, sydd yn gyfrwng i sicrhau un pwynt cyswllt ar gyfer rhaedru gwybodaeth, sicrhau arweiniad a chefnogaeth, ynghyd â rhannu adnoddau'r Siarter Iaith ymysg ysgolion eu dalgylch.
- 2.3. Mae'r Cyd-Gysylltwyr Iaith hefyd yn adnodd allweddol wrth sicrhau cyrhaeddiad yr ysgolion yng nghyd-destun safonau efydd, arian, ac aur y Siarter Iaith.
- 2.4. Yn flynyddol, mae'r ysgolion hefyd yn derbyn £200 yr un i gynllunio a chynnal gweithgareddau i gefnogi nod y Siarter Iaith. Yng Ngwynedd, mae'r ysgolion bellach yn cyd-gynllunio defnydd o'r arian yma'n ddalgylchol, ac isod rhoddir enghreifftiau o'r math o weithgareddau ac adnoddau sydd wedi eu creu gyda'r arian i gefnogi nod y Siarter Iaith:

- Adnoddau a chyfarwyddiadau ar sut i chwarae gemau buarth newydd
- Rapiau dalgylchol wedi'u llunio er mwyn atgyfnerthu cywirdeb iaith mewn ffordd hwyliog a chyfoes. Chwaraeir y rapiau a cherddoriaeth Cymraeg trwy gyfrwng uchelseinyddion yn ystod amser egwyl mewn 3 dalgylch.
- Crëwyd CD o ganeuon, hwiangerddi a rhigymau ar gyfer y cyfnod cyn-ysgol, meithrin a Chyfnod Sylfaen. Cyflwynir y caneuon yn ddyddiol i rymuso'r iaith lafar ac atgyfnerthu patrymau iaith cywir a chyfoethogi geirfa disgyblion ysgolion y dalgylch.
- Dysgwyr yn cydweithio gyda chyfansoddwraig i gyfansoddi cân y 'Siarter Iaith', gan ei recordio a'i chyflwyno i rieni a chyfeillion yr ysgolion drwy gyfrwng gwefannau cymdeithasol, cyfarfodydd a chyngherddau.
- Sianeli 'youtube' wedi eu creu o ddysgwyr yn cynnal sesiynau holi ac ateb gydag enwogion Cymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth o 'sêr' Cymraeg a Chymreig.

2.5 Yn ogystal, mae'r Siarter Iaith wedi arwain at gynnal:

- nifer o weithgareddau e.e. Miri Mehefin, Hwyl Haf, Pared Gŵyl Ddewi;
- nifer o hyfforddiannau e.e. caffael iaith i weithlu'r blynyddoedd cynnar, sgiliau iaith i staff ategol
- gweithdai perfformio a chyfansoddi caneuon efo bandiau Cymraeg cyfoes.
- teithiau tywys Cymraeg trwy gydweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru

3. DATBLYGU'R GWE IAITH

- 3.1 Un cam pwysig er mwyn mesur effaith gweithredu'r Siarter Iaith ynghyd â'r holl weithgareddau cysylltiedig fu sefydlu'r Gwe-Iaith.
- 3.2 Datblygwyd y Gwe-Iaith gan Uned TGCh y Cyngor mewn partneriaeth gyda'r Adran Addysg a Hunaniaith. Holiadur ar-lein yw'r Gwe Iaith, sydd yn gofyn cyfres o gwestiynau i'r plant yng nghyd-destun y Gymraeg. Mae pob ysgol yn gweithredu'r Gwe Iaith ddwywaith y flwyddyn, sef ym mis Medi er mwyn gosod gwaelodlin o sefyllfa defnydd iaith ac agweddau plant tuag at y Gymraeg ar ddechrau'r flwyddyn addysgol, ac yna gweithredir y gwe iaith unwaith eto ym mis Mehefin, er mwyn asesu a fu cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn erbyn y gwaelodlin a sefydlwyd.

4. SIARTER IAITH – TUA'R DYFODOL

- 4.1 Yma yng Ngwynedd y sefydlwyd y Siarter Iaith, ac mae'r Adran Addysg a'r Cyngor yn ymfalchïo yn ei llwyddiant, ac ymdrechion a brwdfrydedd holl randdeiliaid ein hysgolion i wireddu'r nod.
- 4.2 Yn sgil y llwyddiant hwn, a gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, gwelwyd ehangu'r Siarter i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws rhanbarth y gogledd, ac yn fwy diweddar, lledaenwyd y Siarter Iaith i ysgolion Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru.
- 4.3 Bellach, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido swydd Cydlynnydd Siarter Iaith ymhob consortia addysg rhanbarthol ar draws Cymru, ac edrychir i gyhoeddi un fframwaith genedlaethol fydd yn adlewyrchu'r Siarter Iaith tra'n dod â nifer o gynlluniau eraill yn yr un maes ynghyd, megis Cymraeg Campus a PCAI.
- 4.4 At hyn, mae hi'n gyfnod o newid enfawr ym myd addysg ar hyn o bryd, gyda graddfa a maint y newid i'r gyfundrefn na welwyd o'r blaen: newidiadau i drefniadaeth yr arolygiaeth

ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i gwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion yr Athro Donaldson. Rhydd y newidiadau hyn heriau a chyfleoedd amlwg i'r Siarter Iaith wrth i ni edrych ymlaen i'r cyfnod nesaf ym mywyd y Siarter Iaith.